**LLANFAIR YN NEUBWLL CYNGOR CYMUNED**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Nos Fawrth 21 Mawrth 2023**

**Presennol:** Cynghorydd Celfyn Furlong – Cadeirydd.
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Einir Thomas a Dyfed Williams.

Hefyd yn bresennol: - Ken Taylor - Cynghorydd Sir.
Mai Owen - Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol a Evan Wyn Robertson

**1. Ymddiheuriadau:** Siân Enfys Jones, Lowri Owen, Gareth Thomas.

**2. Datganiad o Ddiddordeb** – cafwyd datganiadau o ddiddordeb personnol fel a ganlyn:
Cyng. K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei safbwynt ar y Pwyllgor Cynllunio.
Cyng. Gwilym O. Jones - eitem 9.1 - rhoddion i Y Rhwyd a Neuadd Pentref
Cyng. Sharon Parry eitem 9.1 – rhoddion i MônFM a Hosbis Dewi Sant.
Cyng. Gordon Owen eitem 9.1 - rhodd i Neuadd Bentref.

**3. Sedd Wag**
Cafwyd cais gan Mr Evan Wyn Robertson am y sedd wag ar y Cyngor Cymuned. Cytunwyd ei fod yn amlwg addas a phenderfynwyd yn unfrydol i'w gyf-ethol fel Cynghorydd Cymuned, byddai'r clerc yn hysbysu'r Cyngor Sir o hynny. Gan fod Mr Robertson yn bresennol yn yr adeilad fe'i gwahoddwyd i eistedd gyda'r cyngor am weddill y cyfarfod.

**4. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd bod cofnodion 21 Chwefror 2023 yn gywir (Cynig Cyng. G.O. Jones, eilio Cyng.Gordon Owen.)

**5. Materion yn codi o'r cofnodion.**

5.1 Cae Chwarae: Roedd gwaith wedi'i wneud ar y ffiniau, gyda gwrych wedi'i blygu, a gwreiddgyff a thoriadau o wahanol blanhigion wedi'u plannu. Cynigodd Cyng. Celfyn Furlong fynd i gael golwg eto ar y meinciau.

5.2 Diffibriliwr – Roedd y lleoliad a'r ffynhonnell bŵer yn dal i fod yn broblem. Gwrthododd y Cyngor Sir ddilyn arfer Cyngor Sir Gwynedd a chaniatáu i ddiffibrilwyr gael eu cysylltu â lampau'r stryd am y rheswm na allent fonitro'r defnydd o bŵer. Dywedodd Cyng. G. O. Jones ei fod wedi cysylltu â Scottish Power a'i fod yn disgwyl galwad yn ôl ganddynt. Atgoffodd Cyng. Sharon Parry fod gan Llanfihangel yn Nhowyn boblogaeth fawr a bod angen ddiffibriliwr yno hefyd.

5.3 Peiriant dosbarthu pecynnau gwastraff cŵn - Doedd dim ymateb gan CSYM ynglŷn â chael bin arall ar Lôn Minffordd. Dywedodd Cyng. Furlong fod rhywun wedi gosod cynhwysydd wedi ei greu allan o botel ar lwybr yn Fali. Cytunodd y Clerc a Cyng. Sharon Parry weld os oedd modd creu rhywbeth tebyg i roi ar Lôn Minffordd.

5.4 Goleuadau Stryd a phalmentydd Ffordd Minffordd. – Roedd y clerc yn dal i ddisgwyl am y wybodaeth a addawyd gan CSYM ynglŷn â goleuadau'r stryd. Fodd bynnag roeddent wedi mynychu a chlirio cerrig oddi ar y palmant. Bu Cyng. Victor Owen yno wedyn yn hel mwy o gerrig, yr amheuaeth oedd mai pobl ifanc oedd yn tynnu'r wal i lawr wrth gerdded yn ôl a blaen o'r safle bws. Cytunwyd i fonitro hyn.

5.5 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim

**6. Penderfyniadau Cynllunio –** dim.

6.1 HHP/2023/5 Isfryn, 1 Taniffordd Terrace, Caergeiliog – caniatâd.

6.2 Parc Solar Traffwll – Roedd Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi caniatáu'r cais am y Parc Solar. Nodwyd bod rhaid iddynt gychwyn ar y datblygiad o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd a bod nifer fawr o amodau ynghlwm â'r penderfyniad..

**7. Ceisiadau cynllunio**

7.1 **HHP/2023/37 Bwthyn Ceirios, Ffordd Caergybi, Caergeiliog.**
Cais llawn ar gyfer codi garej datgysylltiedig – Mynegwyd pryder am faint y garej, roedd i weld yn rhy fawr am garej ddomestig. Bu pryder er tro bod yna nifer fawr o gerbydau ynghlwm a'r eiddo yn cael eu gadael ar y lle parcio cyhoeddus tu allan i'w cwrtil. Os oedd y cais i'w gymeradwyo cytunwyd i ofyn i hynny fod ar yr amod nad oedd y garej i'w ddefnyddio at unrhyw bwrpas busnes.

7.2 **FPL/ 2023/43 27 Zealand Park, Caergeiliog**
Cais ôl-weithredol ar gyfer codi annedd newydd ynghyd a adeiladu mynediad i gerbydau newydd ar dir gerllaw - nodwyd bod cais eisoes wedi'i gytuno ar y safle, dim sylwadau pellach.

7.3 **Safle ger Stad Parc Zealand Caergeiliog**
Cynnig – cais am ganiatâd cynllunio llawn i 8 o dai fforddiadwy - e-bost gan Erw Consulting yn rhoi gwybod i'r Cyngor eu bod wedi cyflwyno cais cynllunio ar ran Clwyd Alyn a Thai Teg i adeiladu wyth annedd fforddiadwy ar gyfer anghenion pobl leol gan.

**8. Materion ariannol**
Cyflwynwyd a chadarnhawyd adroddiad ariannol y SCC ar gyfer y cyfnod rhwng 1.2.2023 a 28.2.2023 ynghyd â chysoniadau banc a datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

Cyfrif cyfredol £ 31,135.43, Cyfrif deposit £3,940.64

8.1 Lwfans Aelodau – dim taliadau yn 2022/23

8.2 Penodiad yr Archwilydd Mewnol - cytunwyd i ofyn i Mr Hughie Lloyd Jones wneud archwiliad.

8.3 Cynnal a Chadw – Roedd GMS Garden Services wedi hysbysu cynnydd mewn taliadau torri glaswellt o £ 70 i £ 75 a TAW y toriad. –cytunwyd i dderbyn y cynnydd. Cytunwyd hefyd i barhau i ddefnyddio Wharton Maintenance Services i dorri'r llwybrau.

**9.** Taliadau i'w gwneud:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Chwefror.) | £398.52 | C. Redmond | £90 |
| Prydles IOACC | £137 | Estyniad 2020/21 | £200 |
| Un Llais Cymru | £281 | Costau Banc | £7.80 |
| Admin. (inc, stampiau) | £76.33 | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SCC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

9.1

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Neuadd Pentref Caergeiliog | 2500 | Deddf Llywodraeth Leol1972, s.19 |
| 2. | Y Rhwyd | 150 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, s. 145 |
| 3. | Hosbis Dewi Sant | 300 | Deddf Llywodraeth Leol1972, s.2 |
| 4. | Ambiwlans Awyr Cymru | 100 | Deddf Llywodraeth Leol1972, s.2 |
| 5. | MônFM | 100 | Deddf Llywodraeth Leol 1972, s. 145 |

**10.** Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

10.1 Ymgynghoriad wedi'i lansio ar ein rheolau cofrestru newydd am holl geidwaid adar ym Mhrydain Fawr.

10.2 Ymgynghoriad: Polisi Cynllunio Cymru ynghylch buddion net ar gyfer bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau

10.3 Papur gwyn ar y Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru).

**11. Adroddiadau Aelodau:**

11.3 Cyng. William Victor Owen: Dywedodd bod Bwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan wrthi'n llosgi i eithin ar y comin a bu cwynion diweddar gan y Clwb Golf am ddifrod i'r maes.

11.4 Nodwyd bod y lloches fws wrth y fynedfa i Stad Treifan wedi ei ddifrodi, byddai'r clerc yn trefnu ei drwsio.

**12. Cyfarfod nesaf – 18 Ebrill 2023.**